**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 1 MAWRTH 2021 DYDD LLUN, 1 MAWRTH 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
C. Meredith (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Cook
M. Day
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
J. C. Morgan
G. Paulsen
B. Summers
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 7 RHAGFYR 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020, yn cynnwys:-<br><br>*<u>Adroddiad Gweithgareddau – Gorfodaeth Gorchmynion Sbwriel a Rheoli Cŵn am flwyddyn ariannol 2019/20</u>*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd fod y gwasanaeth gorfodaeth sbwriel a rheoli cŵn yn dal i fod wedi'i ohirio oherwydd pandemig Covid, ac y symudwyd Swyddogion i ymgymryd â dyletswyddau mewn ymateb i Covid. Byddai'r gwaith hwn yn parhau am y dyfodol rhagweladwy, yn amodol ar gyllid.<br><br>Gofynnodd Aelod am ffigurau ar nifer y dirwyon a wnaed yng nghyswllt baw cŵn a hefyd am sbwriel a tipio anghyfreithlon.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod blaenorol yn rhoi data ar gyfer 2019/20. Ni fu unrhyw weithgaredd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ers mis Mawrth 2020, gan y cafodd y gwasanaeth ei ohirio. Fodd bynnag, cadarnhaodd y cyflwynir adroddiad ar dipio anghyfreithlon i'r Pwyllgor Craffu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.<br><br>*<u>Gorfodaeth Parcio Sifil</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ei sylwadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol ac ategodd y dylai'r Cyngor ystyried dull gweithredu Awdurdod cyfagos yng nghyswllt trwyddedau parcio preswylwyr, a caniatáu opsiwn ar gyfer ail drwydded am ffi bob blwyddyn.<br><br>Mynegodd bryder fod Swyddogion Gorfodaeth yn symud o ganol | |

| | | |
|---|---|---|
| | trefi i ardaloedd preswyl ehangach, a gofynnodd am gynnal adolygiad o 'linellau melyn' yn amodol ar i gyllid fod ar gael o fewn y gyllideb.<br><br>Gofynnodd Aelod eraill os yw Swyddogion Gorfodaeth Parcio Sifil yn cynnal gwiriadau ar ddeiliaid bathodynnau glas yn cydymffurfio gyda'r meini prawf.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os yw Swyddogion Gorfodaeth Parcio Sifil yn gwirio y cydymffurfir ag amodau bathodynnau glas yn nhermau hyd amser parcio ac os yw'r person cymwys yn y cerbyd.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Peirianneg na wyddai os yw'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal, ond dywedodd y byddai'n cysylltu gyda'r Swyddogion Gorfodaeth ynghylch y mater hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **DIWEDDARIAD AR HEN DOMENNYDD GWASTRAFF**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Peirianneg yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol yng nghyswllt hen domennydd gwastraff ym Mlaenau Gwent, ac yn rhoi manylion camau gweithredu a thasgau allweddol yn unol â Thasglu Polisi Diogelwch Tomennydd Glo. Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dilynodd trafodaeth am y tirlithriad yn y Rhondda y llynedd ac esboniodd y Swyddog bod nifer o domennydd llai ym Mlaenau Gwent ac y cafodd llawer eu hadfer neu adeiladu arnynt. Ni awyddai fod unrhyw domennydd ym Mlaenau Gwent ar ochr mynydd neu wrth ymyl afon, a dim byd sylweddol fel y math a welwyd yn y Rhondda.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid dynodi Swyddog i archwilio'r tomennydd yn y Fwrdeistref yn rheolaidd.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog y daw deddfwriaeth newydd i rym ym Mai/Mehefin 2021 a all olygu fod angen gwaith. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Aelod sut y bwriedir categoreiddio tomennydd ar dir ansefydlog. Atebodd y Swyddog fod tir ansefydlog yn wahanol i domennydd glo ac wedi eu dynodi ar gofrestr wahanol.<br><br>Dywedodd Aelod i'r NCB gynnal archwiliadau helaeth o'r holl domennydd ledled De Cymru yn dilyn trychineb Aberfan. Mynegodd gonsyrn y cafodd y cofnodion hynny eu colli dros gyfnod a theimlai fod gofyn i awdurdodau lleol barhau â'r dasg honno yn awr. Mae hefyd nifer o domennydd yn yr ardal fel canlyniad i gloddio am fwynhau haearn a gofynnodd os y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn cael ei hymestyn i'w cynnwys.<br><br>Mewn ymateb esboniodd y Swyddog fod unrhyw archwiliadau pyllau glo yn dal i fod yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Glo. Fodd bynnag, yn nhermau'r ddeddfwriaeth newydd, ni fyddai'n gwybod am y cynnwys nes y daw i law ar gyfer sylwadau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r camau gweithredu a thasgau allweddol a nodir ym mharagraffau 2.8 i 2.9 (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>DIWEDDARIAD GWEITHIAU CYFALAF SEILWAITH MYNWENTYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tim Strydlun.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Strydlun yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y gwariant cyfredol a gwariant y dyfodol yn gysylltiedig â'r cyllid cyfalaf (tua £200,000) sydd ar gael i wneud gwaith seilwaith mynwentydd ym mlynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Roedd yn falch i ddweud fod y Cyngor allan i dendr ar hyn o bryd ar gyfer yr holl waith yn gysylltiedig gyda'r seilwaith llwybrau o fewn y mynwentydd. Mae'n debygol y byddai'r gweithiau hynny yn dod dan y gyllideb, a fyddai'n galluogi symud ymlaen â gweithiau Blaenoriaeth 2.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y rhestr o weithiau a amlygir yn Atodiad 1 a dywedodd y byddai wedi disgwyl i 'torri tyfiant' fod yn rhan o waith cynnal a chadw dydd-i-ddydd.<br><br>Dywedodd iddo ymweld â holl fynwentydd y Fwrdeistref a holi pam | |

| | | |
|---|---|---|
| | na chafodd y dilynol ei gynnwys yn yr adroddiad:<br><br>• Blaenau – gwaith atgyweirio neu symud y lloches.<br>• Brynmawr – symud y canopi sy'n gysylltiedig â'r hen Gapel Gorffwys.<br>• Glynebwy – symud neu waith atgyweirio i'r lloches. Holodd hefyd am yr angen am grid gwartheg a theimlai y byddai'n well gwario'r arian ar ddraeniad.<br>• Brynithel – gofynnodd am eglurdeb ar p'un ai a fyddai'r lloches yn cael ei symud neu ei hailbeintio.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog y byddai'n hapus i gwrdd gydag Aelodau lleol ar y safle i drafod y gwaith i gael ei wneud. Yn nhermau sylw'r Aelod am 'dorri tyfiant', cytunodd fod hyn yn 'gadw tŷ da' a chadarnhaodd y cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Tîm am hyn.<br><br>Yng nghyswllt mynwent Brynmawr, cadarnhaodd y Swyddog fod darn o waith ar wahân ar adeilad yr hen gapel gorffwys, ac y cyflwynir adroddiad maes o law.<br><br>Dywedodd Aelod y bu gwelliant enfawr mewn cynnal a chadw mynwentydd yn y Fwrdeistref.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn a gododd Aelod am feinciau, cadarnhaodd y Swyddog y cynhelir adolygiad i ddynodi unrhyw rai sydd angen eu hadnewyddu ac yn y blaen. Cadarnhaodd hefyd y mabwysiadwyd polisi fel canlyniad i waith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu i gynnwys rhai manylebion a chyfnod cynnal a chadw ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu mainc.<br><br>Holodd Aelod am yr amserlen ar gyfer gwaith Blaenoriaeth 1 a dywedodd y Swyddog y gobeithir y caiff y gwaith seilwaith ei gwblhau o fewn 3 mis.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn Atodiad 1 (blaenoriaethau cynnal a chadw mynwentydd). | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD SEFYLLFA CEFFYLAU SY'N PORI'N ANGHYFREITHLON</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Tîm Diogelu'r | |

Amgylchedd.

Cyflwynodd Rheolwr Tîm Diogelu'r Amgylchedd yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg ar fater ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r adroddiad yn amlinellu maint y broblem, yn cynnwys dynodi lleoliadau daearyddol lle rhoddir adroddiadau cyson am y broblem, a nododd y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a ddefnyddir i ddatrys digwyddiadau.

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.

Dywedodd Aelod fod adroddiadau niferus am bori anghyfreithlon yn yr ardal o dir glas yn West Side, Blaenau, ond na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad. Dywedodd hefyd fod y ffigurau'n ymddangos yn eithaf isel a holodd sut y cânt eu cofnodi, gan y derbynnir cwynion drwy wahanol lwybrau, h.y. iechyd yr amgylchedd, lles anifeiliaid a hefyd stadau.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y ddeddfwriaeth a dywedodd fod pryder y byddai'r Cyngor yn gyfrifol am unrhyw faterion llesiant ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon ar dir y Cyngor. Cyfeiriodd wedyn at adran 2.6 yr adroddiad a gofynnodd faint oedd cost y gwaith ar y cyd i'r Cyngor. Yn nhermau'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad, gobeithiai y byddai buddsoddiad wrth weithredu yn atal troseddwyr mynych.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog y byddai'n cysylltu gyda'r Aelod parthed yr ardal tir glas yn West Side, Blaenau. Fodd bynnag, yng nghyswllt y ddeddfwriaeth a phryderon am gyfrifoldeb am berchnogion tir, dywedodd y Swyddog mai perchnogion y ceffylau fyddai'n gyfrifol yn y pen draw am eu llesiant. Os cymeradwyir yr adroddiad, dywedodd y byddai'n galluogi Swyddogion i fynd ymlaen i symud ceffylau o dir yn syth, yn achos troseddwyr mynych hirdymor; a rhoddodd sicrwydd am lesiant ceffylau pe byddai hyn yn digwydd.

Cyfeiriodd y Swyddog wedyn at y costau ar gyfer y gwaith ar y cyd a wnaed yn 2013/14, a chadarnhaodd fod hyn tua £3k ac y cafodd ei gyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y cafodd y gwaith ar y cyd ei gyflawni drwy gydweithrediad a chefnogaeth elusennau ceffylau a grwpiau hawliau lles anifeiliaid, a bu'n llwyddiannus iawn. Nid oes unrhyw broblemau sylweddol wedi codi ers y dyddiad hwnnw.

| | | |
|---|---|---|
| | Yng nghyswllt sylwadau gan Aelod am y ffigurau, cadarnhaodd y Swyddog y caiff pob cwyn am bori anghyfreithlon ar dir y Cyngor eu cofnodi gyda'r Adran Stadau.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Stadau a Rheoli Asedau Strategol y cafodd y data ei baratoi o gofnodion o fewn yr Adran a gwybodaeth Swyddogion o drin cwynion o bori anghyfreithlon. Mae cofnodion mwy cywir yn cael eu cadw yn awr ac ymddangosai fod nifer o achosion o bori anghyfreithlon bob blwyddyn a throseddwyr mynych.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan awgrymodd Aelod y gellid hefyd gynnal trafodaethau gyda Tai Calon am bosibilrwydd dull partneriaeth at y broblem o anifeiliaid yn crwydro.<br><br>Dywedodd Aelod y bu anifeiliaid yn crwydro yn broblem am flynyddoedd lawer a dywedodd fod angen adolygu contract y Cyngor gyda Chyngor Sir Powys.<br><br>Cynigiodd Aelod yr ychwanegiad dilynol i Opsiwn 1 yr adroddiad:<br><br>'Ac argymhellodd fod y Cyngor yn edrych ar weithio gyda phartneriaid a chael caniatâd i ddilyn gorfodaeth yng nghyswllt Deddf Rheoli Ceffylau mewn mannau lle mae llawer o achosion yn unol ag Amcan 2 y cynllun Llesiant'.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a:-<br><br>i. Bod Aelodau yn cefnogi'r broses bresennol a nodir yn yr adroddiad ar gyfer symud ceffylau a defnyddio contractwyr a'r costau yn gysylltiedig â hyn (Opsiwn 1); ac<br>ii. Argymell bod y Cyngor yn edrych ar weithio gyda phartneriaid ac yn cael caniatâd i geisio gorfodaeth yng nghyswllt Deddf Rheoli Ceffylau mewn ardaloedd lle mae llawer o achosion yn unol ag Amcan 2 Cynllun Llesiant. | |
| **No. 9** | **<u>DEFNYDDIO YMGYNGHORWYR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol. | |

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yng nghyswllt y gwariant a wnaed yn ystod 2018/2019 a 2019/2020 ar ddefnydd ymgynghorwyr i gefnogi, atodi ac ategu gwaith Swyddogion ar draws y Cyngor.

Dywedodd mai mantais defnyddio ymgynghorwyr yw mai dim ond am gyfnod byrrach mae eu hangen sy'n galluogi'r Cyngor i dalu am unrhyw sgiliau neilltuol pan mae eu hangen a dim ond pan mae eu hangen. Mae hyn yn aml yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor ac yn osgoi'r angen i gyflogi staff ychwanegol gyda gwybodaeth a sgiliau arbenigol, ar sail barhaol.

Gwariodd y Cyngor gyfanswm o £0.7m yn ystod 2018/2019 a £1.1m yn 2019/20 ar ymgynghorwyr ar draws pob gwasanaeth, ac mae'r Atodiad i'r adroddiad yn dynodi'r ymgynghorwyr hynny, y costau a'r rheswm dros eu cyflogi yng nghyswllt portffolio'r Amgylchedd.

Gofynnodd Aelod pa mor aml mae cyflogi ymgynghorwyr wedi arwain at fynd ymlaen â phrosiectau.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr Atodiad yn dynodi nifer o feysydd lle mae defnydd ymgynghorwyr wedi arwain at sicrhau cyllid allanol ychwanegol.

Dywedodd yr Aelod y byddai dadansoddiad o'r ffigurau yn fanteisiol yn nhermau'r swm a wariwyd ar ymgynghorwyr o gymharu gyda'r prosiectau y symudwyd ymlaen â nhw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n rhoi dadansoddiad o'r ffigurau yng nghyswllt portffolio'r Amgylchedd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dilynodd trafodaeth fer pan esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, lle sicrheir cyllid allanol, y gall hyn fod yn rhan o brosiect mwy y gall y Cyngor hefyd fod yn cyfrannu ato.

Cyfeiriodd Aelod at yr Atodiad a gofynnodd am eglurhad ar y prosiect Gwastraff. Mynegodd gonsyrn hefyd am y risg o ddefnyddio cronfeydd oedd wedi eu clustnodi ar gyfer cyfleuster profi ac olrhain.

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y prosiect Gwastraff yn brosiect ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy. Dywedodd fod y gost yn wariant unwaith-yn-unig yng nghyswllt cyngor cyfreithiol arbenigol sydd ei angen i sefydlu'r trefniant ar y cyd ac y caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yng nghyswllt y prosiect profi ac olrhain, teimlai y bu'r cyngor arbenigol yn ddefnyddiol ac angenrheidiol i gyflawni prosiect o'r math hwnnw a theimlai Aelodau hefyd mai dyma'r dull cywir i ddynodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer y Cyngor. Mae'r gwariant o gronfeydd wrth gafn a glustnodwyd ac nid yw o anfantais i unrhyw brosiectau eraill.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r defnydd o ymgynghorwyr (Opsiwn 1). | |
| **No. 10** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 12 EBRILL 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y flaenraglen waith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 12 Ebrill 2021.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd i Aelodau wneud y ceisiadau dilynol:<br><br>• Adolygu cofrestr bresennol y Cyngor o domennydd glo segur<br>• Gwybodaeth ar nifer y dirwyon a wnaed yng nghyswllt tipio anghyfreithlon<br>• Adolygu gorchmynion traffig (llinellau melyn) mewn ardaloedd preswyl<br>• Adolygu contract y Cyngor gyda Chyngor Sir Powys yng nghyswllt anifeiliaid yn crwydro ac yn y blaen<br>• Gwybodaeth ar orfodaeth rheoliadau Covid<br>• Gwybodaeth ar y trac rasio anghyfreithlon yn Georgetown, Tredegar<br>• Diweddariad ar achos busnes Silent Valley<br><br>Dywedodd Aelod y dylid diwygio enw'r Deiliad Portffolio i ddarllen Joanna Wilkins.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |